Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF

# Cynllun Gweithredu: CEF Berwyn

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu ar: 12 Mai 2025

Ymateb i Archwiliad Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP): 27 Ionawr – 07 Chwefror 2025

Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar: 06 Mai 2025

## CYFLWYNIAD

Mae Arolygiaeth Carchardai EF (HMIP) ac Arolygiaeth Prawf EF ar gyfer Cymru a Lloegr yn arolygiaethau annibynnol sy'n craffu ar yr amodau ar gyfer carcharorion a throseddwyr, a'r ffordd y cânt eu trin. Maent yn adrodd ar eu canfyddiadau ar gyfer carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac effeithiolrwydd gwaith y gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid ledled Cymru a Lloegr i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Mewn ymateb i'r adroddiad, rhaid i HMPPS a'r MoJ lunio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a'r pryderon allweddol. Mae cynlluniau gweithredu'n darparu camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a'r pryderon allweddol, sy'n glir, yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol, gan nodi perchennog ac amserlen pob cam yn glir. Anfonir cynlluniau gweithredu at Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi a'u cyhoeddi ar wefan GOV.UK. Bydd y cynnydd mewn perthynas â rhoi'r cynlluniau gweithredu ar waith a'u cyflawni hefyd yn cael ei fonitro ac yn cael ei adrodd.

CYNLLUN GWEITHREDU:  ADRODDIAD AROLYGIAETH CARCHARDAI EI FAWRHYDI

SEFYDLIAD: CARCHAR EF BERWYN

| 1. Rhif Arg. | 2. Pryderon | 3. Ymateb<br>Camau a Gymerwyd/a Gynlluniwyd | 4. Perchennog Cyfrifol | 5. Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|
| | **Pryderon â blaenoriaeth** | | | |
| 1 | **Nid oedd y carchar yn ddigon diogel.** Roedd cyfraddau trais carcharorion, gan gynnwys yn erbyn staff a charcharorion eraill, wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf ac roeddent yn uchel. | Bydd Carchar EF Berwyn yn ceisio lleihau’r lefelau trais drwy wneud y canlynol:<br>• Adolygu ac ailgyhoeddi’r Strategaeth Diogelwch, gan ddefnyddio’r holl ddata sydd ar gael i sicrhau bod gweithgarwch yn mynd i’r afael â’r ffactorau sy’n sbarduno trais.<br>• Dadansoddi data o’r arolwg carcharu mwy diogel er mwyn deall pryderon carcharorion ynghylch diogelwch. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu hymgorffori yn yr adolygiad o'r Strategaeth Diogelwch, gyda materion a nodwyd yn cael eu hychwanegu at leihau trais a'r cynllun gweithredu diogelwch hirdymor cyfunol a'r traciwr camau carcharu mwy diogel (SCAT).<br>• Adolygu effeithiolrwydd y newidiadau a wnaed i’r Cyfarfod Diogelwch misol a strwythurau sicrwydd y Cyfarfod Sicrwydd Diogelwch (SAM) dyddiol a’r Cyfarfod Ymyriadau Diogelwch (SIM) wythnosol.<br>• Gwella lefel y manylion a chategoreiddio digwyddiadau treisgar er mwyn gwella dadansoddiadau data i’w hystyried yn y cyfarfod diogelwch.<br>• Parhau i gyflwyno cynlluniau wythnos diogelwch cenedlaethol, fel y gwaith ar y cyd rhwng y Tîm Diogelwch a chydweithwyr Addysg Gorfforol ar gyfer y rhai sy’n ymwneud â digwyddiadau treisgar.<br>• Ail-adrodd y prosiect ymgynghori blaenorol ar drais a seicoleg hunan-niweidio, i sicrhau bod y ffrydiau gwaith ar gyfer lleihau trais a hunan-niweidio yn gywir. | Llywodraethwr | <br>Gorffennaf 2025<br>Gorffennaf 2025<br>Mehefin 2025<br>Cwblhawyd<br>Medi 2025<br>Mawrth 2026 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Adolygu'r broses o weithredu gofynion y cytundeb troseddau mewn carchardai gyda phartneriaid gorfodi'r gyfraith, er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd mewn achosion perthnasol.<br>• Rhoi strategaeth a chynllun gweithredu ar waith i sicrhau bod dyfarniadau'n cael eu trin yn brydlon, fel bod y broses yn effeithiol fel rhwystr i ymddygiad gwael/treisgar a chamddefnyddio cyffuriau.<br>• Darparu cymorth ychwanegol i Reolwyr Achos wrth gwblhau Cynlluniau Herio, Cefnogi ac Ymyrryd (CSIP), i wella dyfnder ac ansawdd cynlluniau fel eu bod yn cael eu teilwra i'r unigolyn a'u cysylltu â'r rhesymau dros yr atgyfeiriad cychwynnol. Wedi'i ategu gan archwiliadau sicrwydd gydag adborth yn cael ei roi i'r Rheolwr Achos, gydag ymarfer da'n cael ei drafod yn y SIM.<br>• Hyrwyddo cefnogaeth a gwerth y tîm seicoleg ar y safle o ran helpu rheolwyr achos i reoli achosion CSIP cymhleth, gan sicrhau bod carcharorion yn cael eu cyfeirio at yr ymyriad mwyaf priodol.<br>• Monitro amserlenni, effeithiolrwydd ac effaith yr holl weithgaredd gwelliant yn y cyfarfodydd SAM, SIM a strategaeth diogelwch, gan fonitro gwelliannau drwy'r cynllun gweithredu diogelwch cyfunol. | | Gorffennaf 2025<br><br>Medi 2025<br><br>Cwblhawyd<br><br>Gorffennaf 2025<br><br>Cwblhawyd |
| 2 | **Nid oedd gan garcharorion gymhelliant digonol i ymddwyn yn dda a chymryd rhan yn nhrefn y carchar.** Nid oedd arweinwyr wedi manteisio ar gyfleoedd i gymell ymddygiad da, yn enwedig ar gyfer carcharorion uwch, ac nid oedd y cyfleoedd ar gael yn cael eu hyrwyddo'n dda. | Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Preswyl (HoRS) yn hyrwyddo manteision ymgysylltu ac ymddygiad cadarnhaol drwy:<br><br>• Adolygu a chyhoeddi cynllun y Polisi Cymhellion (IP). Bydd yr adolygiad yn seiliedig ar ymgynghoriad â'r carcharorion. Bydd ffocws ar wella'r cynnig sydd ar gael i gymell carcharorion i fynychu a chymryd rhan mewn gweithgareddau, adsefydlu, gwaith lleihau aildroseddu a pheidio â defnyddio cyffuriau. Ar ben hynny, bydd yr adolygiad yn gwella'r cynnig a'r cymhellion sydd ar gael ar gyfer cyflawni statws uwch, gyda gwahaniaeth clir rhwng lefelau IP. | Llywodraethwr | Mehefin 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Hyrwyddo manteision y cynllun IP drwy sgyrsiau â staff yr adain, Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar (POM) a Gweithwyr Allweddol. Bydd y cynllun hefyd yn cael ei hyrwyddo drwy hysbysiadau a gliniaduron yn y celloedd.<br>• Cyflwyno proffil a threfn newydd i ganiatáu i'r rhai sy'n gweithio amser llawn gael mwy o amser allan o'r gell a chyfleoedd cyfoethogi. | | Medi 2025<br><br>Hydref 2025 |
| 3 | **Roedd lefelau uchel o gamddefnyddio sylweddau yn peryglu diogelwch, llesiant ac adsefydlu carcharorion.** | Bydd CEF Berwyn a'r Darparwr Iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - BIPBC) yn ymdrechu i sicrhau bod llai o gyffuriau ar gael ac i roi cefnogaeth i'r rhai sy'n defnyddio sylweddau anghyfreithlon drwy wneud y canlynol:<br><br>• Adolygu'r Strategaeth Cyffuriau ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan nodi dull gweithredu ar draws y carchar i leihau'r galw am sylweddau anghyfreithlon. Bydd y cynllun gweithredu ar gyfer lleihau cyflenwi a galw yn cael ei adolygu ar y cyd â'r strategaeth, gan sicrhau ei fod yn ddigon manwl i fynd i'r afael â materion a nodwyd.<br>• Monitro gwybodaeth ddiogelwch yn barhaus i adnabod bygythiadau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg drwy'r Asesiad Tactegol Lleol (LTA) misol a'r Bwrdd Tactegol Lleol (LTB), er mwyn gallu adnabod blaenoriaethau a bygythiadau allweddol, a defnyddio adnoddau yn unol â hynny. Mynd i'r afael â'r uwchraddio angenrheidiol i'r seilwaith ffisegol a nodwyd yn yr LTA neu'r adroddiadau Gwybodaeth am Ddiogelwch.<br>• Sefydlu cyfarfodydd misol gyda'r heddlu lleol a thimau gwybodaeth lleol, dan gadeiryddiaeth y Llywodraethwr, i fynd i'r afael â'r broblem o gyffuriau'n dod i mewn i'r carchar.<br>• Adolygu'r gymuned Byw Heb Sylweddau dan gymhelliant i asesu darpariaeth a'r amgylchedd adeiledig. Y bwriad yw gwneud y mwyaf o atgyfeiriadau a'i effeithlonrwydd, gan sicrhau ei fod yn creu amgylchedd diogel a chefnogol sy'n annog, yn cymell ac yn ysgogi'r carcharorion hynny sy'n dymuno lleihau dibyniaeth ar gyffuriau anghyfreithlon ac sy'n ymatal rhag cyflawni gweithredoedd o drais a/neu hunan-niweidio sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. | Llywodraethwr/ Darparwr Gofal Iechyd | Gorffennaf 2025<br><br>Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd<br><br>Gorffennaf 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd Rheolwyr Dalfa Preswyl (CM) a Swyddogion Goruchwylio yn sicrhau bod yr holl giwiau meddyginiaeth yn cael eu goruchwylio'n briodol i roi preifatrwydd i gleifion wrth y gorddrws ac i leihau'r perygl o fwlio ac i feddyginiaeth gael ei dargyfeirio.<br>• Bydd BIPBC yn cyflwyno tîm cyd-ddigwydd yn y strwythur sy'n cynnwys tri uwch glinigydd i weithio gyda charcharorion cymhleth ac anodd eu cyrraedd sy'n defnyddio cyffuriau ond sydd ag anghenion iechyd eraill.<br>• Bydd staff Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau BIPBC yn ymateb i bob adroddiad bod carcharorion dan ddylanwad sylweddau, er mwyn asesu'r angen a sicrhau bod achosion yn cael eu nodi ar gyfer cymorth dilynol.<br>• Bydd nyrsys clinigol camddefnyddio sylweddau hefyd yn derbyn cyfrifoldeb am ddarparu methadon i'r rhai sy'n newydd i'r carchar ac yn dilyn i fyny ar hynny'n briodol.<br>• Bydd BIPBC yn gwella'r cynllunio ar gyfer y rhai sy'n dychwelyd i'r gymuned sydd angen mynediad a chymorth parhaus gan wasanaethau triniaeth cyffuriau.<br>• Bydd Arweinydd y Strategaeth Cyffuriau yn sicrhau goruchwyliaeth strategol yn y cyfarfod strategaeth cyffuriau misol, lle trafodir data a thueddiadau i gynhyrchu camau gweithredu sy'n cefnogi'r gostyngiad yn y cyflenwad a'r galw, ac i fonitro effeithiolrwydd y Strategaeth Cyffuriau a'r cynllun gweithredu. | | Cwblhawyd<br><br>Mai 2025<br><br>Cwblhawyd<br><br>Mai 2025<br><br>Mai 2025<br><br>Cwblhawyd |
| 4 | **Rhy ychydig o garcharorion yn elwa o ryngweithio o ansawdd da â staff.** Roedd y gwaith allweddol yn aneffeithiol ac nid oedd yn cefnogi cynnydd wrth fwrw ymlaen â dedfrydau. | Bydd CEF Berwyn yn gwella'r broses o ddyrannu a chyflawni gwaith allweddol drwy:<br><br>• Cyflwyno Strategaeth a chynllun gweithredu diwygiedig o ran Gweithwyr Allweddol, yn gysylltiedig â'r cynllun trefn y cytunwyd arno ar gyfer 2025/26, gan gynnwys proses newydd ar gyfer dyrannu gweithwyr allweddol, a fydd yn cynnwys uwchsgilio a datblygu grwpiau staff sy'n | Llywodraethwr | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ymwneud â Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OmiC) a strategaethau Gweithwyr Allweddol.<br>• Cyflwyno cyfarfodydd misol gyda Rheolwyr Preswyl, HoRS a Rheolwyr Unedau Rheoli Troseddwyr (OMU) ar gynnydd gweithwyr allweddol, gan sicrhau bod perthnasoedd adeiladol yn cael eu datblygu gan feithrin ymddygiad cadarnhaol. Wedi'i gefnogi gan archwiliad Sicrhau Ansawdd misol o 10% o nodiadau gweithwyr allweddol gan CM Preswyl, gyda Phennaeth Cyflawni Rheoli Troseddwyr a HOMS yn gwirio 10% o wiriadau'r CM.<br>• Datblygu hyfforddiant staff i sicrhau uwchsgilio gweithwyr allweddol i ddeall sut mae gweithwyr allweddol yn helpu i reoli troseddwyr a symud ymlaen o ran dedfrydau, a sut gellir cyflawni hyn. Ar ben hynny, bydd CEF Berwyn yn nodi hyrwyddwyr gwaith allweddol swyddogion carchardai a fydd yn arwain y gwaith o uwchsgilio cydweithwyr.<br>• Cyflwyno proffil a threfn newydd (gweler pryder 2) i ganiatáu i'r rhai sy'n gweithio amser llawn gael mwy o amser allan o'r gell a chyfleoedd cyfoethogi, a mwy o gyfleoedd i ryngweithio â staff. | | Gorffennaf 2025<br><br>Medi 2025<br><br>Hydref 2025 |
| 5 | **Rhy ychydig o garcharorion mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn, ac oddeutu chwarter ohonynt yn ddi-waith.** | Bydd CEF Berwyn a Novus Cambria (y Darparwr Addysg) yn gwella mynediad carcharorion at Addysg, Sgiliau a Gwaith (ESW) drwy wneud y canlynol:<br><br>• Bydd y Pennaeth Addysg, Sgiliau a Gwaith (HoESW) yn cynnal adolygiad o'r mannau gweithgarwch sydd ar gael i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o faint dosbarthiadau a grwpiau a chanfod a oes modd darparu nifer o weithgareddau mewn un lle. Bydd cyflwyno'r drefn a'r proffil staff newydd (gweler pryder 2) yn cynyddu nifer y lleoedd gweithgaredd amser llawn sydd ar gael.<br>• Adolygu'r broses dyrannu gweithgarwch (Gweler pryder 10). | Llywodraethwr/ Darparwr Addysg | Hydref 2025<br><br>Gorffennaf 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd yr HoRS yn adolygu ac yn cyhoeddi'r cynllun IP (gweler pryder 2), a fydd yn canolbwyntio ar wella'r cynnig sydd ar gael i gymell carcharorion i fynychu a chymryd rhan mewn gweithgareddau, adsefydlu, a lleihau gwaith ar aildroseddu.<br>• Bydd yr HoESW yn adolygu'r cwricwlwm addysg ac yn cyflwyno cynlluniau diweithdra rheolaidd gan dargedu'r boblogaeth Carcharorion Agored i Niwed (VP). Byddant yn sicrhau bod pob Carcharor Agored i Niwed yn cael ei annog a'i alluogi i gael mynediad at addysg a sgiliau.<br>• Bydd presenoldeb a rhesymau dros beidio â mynychu yn cael eu monitro a'u tracio yng nghyfarfod misol y Grŵp Gwella Ansawdd (QIG) a chyfarfodydd goruchwylio contractau, lle gellir codi camau gweithredu er mwyn adnabod a rhoi sylw i'r pethau sy'n rhwystro presenoldeb. | | Mehefin 2025<br><br>Gorffennaf 2025<br><br>Cwblhawyd |
| 6 | **Roedd presenoldeb carcharorion mewn gweithgareddau yn rhy isel.** | Bydd CEF Berwyn a Novus Cambria yn gwella presenoldeb mewn gweithgareddau drwy:<br><br>• Adolygu'r rhwystrau i bresenoldeb a phennu pam eu bod yn amrywio ar draws gwahanol weithgareddau. Bydd y canlyniadau'n cael eu hymgorffori yn yr adolygiadau o sesiynau cynefino a dyrannu Addysg, Sgiliau a Gwaith (ESW) (gweler pryder 10), er mwyn gwella presenoldeb ar draws yr holl weithgareddau.<br>• Adolygu polisi cyflogau carcharorion i gynnwys mesurau i gymell presenoldeb mewn gweithgareddau.<br>• Mudo data dyrannu gweithgareddau a phresenoldeb o system ddigidol Unilink i system adrodd y Gwasanaethau Carchar Digidol, gan ei gwneud yn haws i staff nodi lle mae angen i garcharorion fod, a gwella'r gwaith o fonitro data.<br>• Bydd yr adolygiad o'r cynllun Polisi Cymhellion (IP) (gweler pryder 2) yn canolbwyntio ar wella presenoldeb ac ymgysylltiad mewn gweithgareddau. | Llywodraethwr/ Darparwr Addysg | Mehefin 2025<br><br>Mehefin 2025<br><br>Rhagfyr 2025<br><br>Mehefin 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Preswyl (HoRS) a'r CM Preswyl yn cyfarwyddo staff i hyrwyddo manteision carcharorion yn cymryd rhan yn y drefn ac yn mynychu gweithgareddau fel rhan o'u rhyngweithio dyddiol.<br>• Annog carcharorion nad ydynt yn cymryd rhan yn y drefn i fynychu gweithgareddau pwrpasol fel rhan o sesiynau gwaith/sgyrsiau allweddol (Gweler pryder 4). | | Gorffennaf 2025<br><br>Hydref 2025 |
| | **Pryderon allweddol** | | | |
| 7 | **Roedd lefelau'r hunan-niweidio yn parhau'n rhy uchel.** Nid oedd gan y carchar gynllun gweithredu tymor hir i leihau hunan-niweidio. | Bydd Carchar EF Berwyn yn ceisio lleihau'r lefelau hunan-niweidio drwy wneud y canlynol:<br><br>• Adolygu ac ailgyhoeddi'r Strategaeth Diogelwch, gan ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael i sicrhau bod gweithgarwch yn mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n sbarduno hunan-niweidio.<br>• Cyflwyno cynllun gweithredu diogelwch cyfunol tymor hir, gan ymgorffori camau gweithredu a dysgu o'r holl adolygiadau diogelwch (Gweler pryder 1).<br>• Cyflwyno sesiynau un-i-un o leiaf unwaith yr wythnos ar gyfer carcharorion risg uchel i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn y carchar, gan hyrwyddo ymgysylltu a rhyngweithio cadarnhaol â staff, ymgysylltu â'r drefn a gweithgarwch pwrpasol, a'u cynorthwyo gydag ymholiadau sy'n gallu arwain at rwystredigaeth.<br>• Nodi gwersi ehangach o ymchwiliadau i weithredoedd difrifol o hunan-niweidio, gan ymgorffori argymhellion yn y cynllun gweithredu diogelwch cyfunol tymor hir.<br>• Adolygu cydweithio â chydweithwyr iechyd i sicrhau bod galluogi i fynychu apwyntiadau iechyd meddwl a meddygon teulu yn effeithiol (caiff ei fonitro drwy gyfarfodydd llywodraethu lleol). | Llywodraethwr | Gorffennaf 2025<br><br>Gorffennaf 2025<br><br>Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd<br><br>Gorffennaf 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Sicrhau bod yr adolygiad o'r Polisi Cymhellion (IP) (Gweler pryder 2), yn ymdrin yn benodol ag ystyriaethau diogelwch wrth adolygu lefelau Cymhelliad.<br>• Parhau i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf, gyda'r dysgu'n cael ei atgyfnerthu â staff bob chwe mis i sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu gwreiddio.<br>• Bydd y Tîm Diogelwch yn cefnogi rheolwyr achos gydag Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT) i wella cynlluniau gofal a rheoli achosion, gan sicrhau bod adolygiadau'n amlddisgyblaethol, darparu hyfforddiant a mentora i sicrhau bod prosesau'n cael eu dilyn yn gadarn, gan gynnwys ymyriadau unigol ystyrlon i fynd i'r afael â risgiau.<br>• Adolygu proses Sicrhau Ansawdd ACCT i sicrhau bod pob diffyg yn cael eu hadnabod yn llawn, bod y partïon cyfrifol yn cael eu herio, a bod yr ansawdd yn cael ei wella ym mhob agwedd ar reoli achosion ACCT.<br>• Gwella cysondeb yn y ffordd y caiff y drefn ei darparu drwy adolygu proffiliau staff a'r diwrnod craidd, gan roi mwy o fynediad i weithgareddau pwrpasol a chyfleoedd i gael cysylltiadau cymdeithasol er mwyn lleddfu'r rhwystredigaeth a'r diflastod cyffredinol a ganfuwyd. Bydd rheolwyr achos a staff preswyl yn annog pob carcharor a gefnogir drwy'r broses ACCT i gymryd rhan yn y drefn.<br>• Adolygu'r broses asesu risg ar gyfer unigolion sydd dan oruchwyliaeth barhaus, er mwyn gwella mynediad a darparu gweithgareddau'r drefn iddynt fel rhan o'u cynllun gofal.<br>• Monitro amserlenni, effeithiolrwydd ac effaith yr holl weithgaredd gwelliant yn y cyfarfodydd SAM, SIM a strategaeth diogelwch, gan fonitro gwelliannau drwy'r cynllun gweithredu diogelwch cyfunol tymor hir. | | Mehefin 2025<br><br>Awst 2025<br><br>Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd<br><br>Hydref 2025<br><br>Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd |
| 8 | **Nid oedd y prosesau cwyno a gwneud cais yn effeithiol.** Nid oedd llawer o sicrhau | Bydd y Pennaeth Sicrwydd Busnes yn gwella'r prosesau cwyno a cheisiadau drwy: | Llywodraethwr | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ansawdd gan arweinwyr, ac ni ddadansoddwyd data i lywio cynlluniau gwella. | • Rhoi proses sicrhau ansawdd ar waith i fonitro cwynion, sy'n cynnwys gweithgarwch sicrwydd gan bob pennaeth gweithredol ac uwch arweinydd.<br>• Creu adroddiad misol i graffu ar ddata cwynion i nodi pryderon, themâu, amseroldeb ac unrhyw anghymesuredd posibl, gyda chanlyniadau'n cael eu rhannu a'u trafod yn y cyfarfod perfformiad misol, lle bydd camau gweithredu'n cael eu cynhyrchu a'u hychwanegu at gynllun gwella.<br>• Cyflwyno Rhestr Wirio Sicrwydd ar gyfer Cwynion, i gynnwys nodweddion allweddol ymateb da, gan gynnwys cynnal ymchwiliad trylwyr, siarad â'r achwynydd, canlyniadau ac ymatebion yn seiliedig ar dystiolaeth, a darparu ymddiheuriadau pan fo angen. Bydd hyn yn cefnogi'r archwilydd cwynion wrth asesu ansawdd yr ymatebion, ynghyd â darparu adborth i hyfforddi/cynorthwyo ymchwilwyr cwynion.<br>• Adolygu 10% o gwynion a gyhoeddir ar sail sampl gan Uwch Arweinwyr ar gyfer gwiriadau sicrhau ansawdd.<br>• Sicrhau bod ffurflenni cwyno ar gael a'u bod yn cael eu hailgyflenwi'n ddyddiol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ym mhob uned breswyl. Rhoi system lywodraethu glir ar waith i sicrhau bod cofnod o argaeledd bob wythnos yn cael ei gwblhau a'i gofnodi gan y tîm archwilio a sicrhau ansawdd mewnol.<br>• Bydd data sy'n ymwneud â cheisiadau, gan gynnwys sicrhau ansawdd, themâu ac amseroldeb, yn cael eu hymgorffori mewn adroddiad gwybodaeth rheoli, a fydd yn cael ei adolygu yn y cyfarfod perfformiad, lle bydd camau gweithredu'n cael eu cynhyrchu a'u hychwanegu at y cynllun gwella. | | Mai 2025<br>Mai 2025<br>Cwblhawyd<br>Gorffennaf 2025<br>Gorffennaf 2025<br>Awst 2025 |
| 9 | **Roedd amser allan o'r gell yn annigonol ar gyfer carchar categori C yn bennaf.** Roedd un carcharor o bob pedwar yn ddi-waith a than glo am 22 awr bob dydd. | Bydd CEF Berwyn yn gwella faint o amser a gaiff carcharorion allan o'r gell drwy:<br>• Cyflwyno proffil a threfn newydd i ganiatáu i'r rhai sy'n gweithio amser llawn gael mwy o amser allan o'r gell a chyfleoedd cyfoethogi, gan gynnwys amser allan o'r gell ar dyddiau Gwener ac ar y penwythnos. | Llywodraethwr | Hydref 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Roedd amser allan o’r gell yn arbennig o wael i’r holl garcharorion ar ddydd Gwener ac ar y penwythnos. | • Rhoi mesurau ar waith i wella ymgysylltiad yn y drefn a mwy o amser allan o’r gell drwy’r adolygiad IP (Gweler pryder 2), Sgyrsiau gwaith allweddol (Gweler pryder 4) a mynediad at weithgareddau a dyraniad gweithgareddau (Gweler pryderon 5, 6 a 10).<br>• Gwella cynnig y drefn i garcharorion sydd wedi’u lleoli ar unedau Carcharorion Agored i Niwed. | | Hydref 2025<br><br>Hydref 2025 |
| 10 | **Nid oedd trefniadau ar gyfer cynefino a dyrannu i weithgareddau bob amser yn diwallu anghenion carcharorion yn ddigon da.** Roedd rhai carcharorion yn cael trafferth i ymgysylltu pan nad oeddent yn llwyr ddeall pam eu bod wedi cael eu dyrannu i gwrs. | Bydd CEF Berwyn a Novus Cambria yn gwella’r trefniadau ar gyfer cynefino a dyrannu carcharorion i sesiynau addysg, sgiliau a gwaith drwy:<br>• Bydd y Pennaeth Addysg, Sgiliau a Gwaith ( HoESW) yn adolygu proses gynefino o ran Addysg, Sgiliau a Gwaith i sicrhau ei bod yn effeithiol ac yn diwallu anghenion a heriau’r boblogaeth. Bydd yr adolygiad yn cynnwys argaeledd darparu sesiynau cynefino yn Gymraeg, a’r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf neu ddysgwyr.<br>• Bydd yr HoESW yn cymedroli 10% o Gynlluniau Dysgu Personol Digidol (DPLP), i sicrhau bod targedau a nodau datblygu a osodir yn rhai unigol ac yn effeithiol wrth ddyrannu llwybrau gwaith i garcharorion. Bydd adborth unigol yn cael ei roi i’r aelod o dîm Addysg Gyrfaoedd a Chyngor ac Arweiniad Cychwynnol (CEIAG) sy’n cwblhau’r DPLP, er mwyn sicrhau darpariaeth safonol ar draws yr holl ymarferwyr, gydag archwiliadau sicrwydd yn cael eu monitro yn y Grŵp Gwella Ansawdd (QIG) misol ar gyfer gwelliannau.<br>• Bydd CEF Berwyn yn adolygu’r broses ddyrannu i wella ei effeithiolrwydd a phrydlondeb dyraniadau.<br>• Sicrhau bod yr holl Gynlluniau Dysgu Personol Digidol (DPLP) yn cael eu rhannu â’r tîm dyraniadau cyn i garcharor gael ei ddyrannu, i sicrhau bod y gweithgaredd a ddyrennir iddo yn cyd-fynd â’i ddyheadau, lle bynnag y bo’n bosibl.<br>• Recriwtio Dirprwy Bennaeth Addysg, a fydd unwaith y bydd yn ei le, yn sicrhau bod DPLP yn cael ei rannu â’r holl randdeiliaid allweddol, gan | Llywodraethwr/ Darparwr Addysg | Cwblhawyd<br><br>Hydref 2025<br><br>Gorffennaf 2025<br>Gorffennaf 2025<br><br>Hydref 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gynnwys POM a Gweithwyr Allweddol i helpu ac olrhain cynnydd yn ystod dedfrydau.<br>• Bydd y Pennaeth Lleihau Aildroseddu yn cymedroli 5% o'r holl ddyraniadau bob mis, gan gynnwys eu prydlondeb, gan sicrhau bod carcharorion yn cael eu neilltuo i fannau gwaith ac addysg sy'n cyd-fynd â'u DPLP.<br>• Bydd cynefino a dyraniadau yn cael eu monitro a'u tracio yng nghyfarfod misol y Grŵp Gwella Ansawdd (QIG) a chyfarfodydd goruchwylio contractau, lle gellir codi camau gweithredu er mwyn adnabod a rhoi sylw i unrhyw rwystrau i gynefino/dyrannu. | | Gorffennaf 2025<br><br>Cwblhawyd |
| 11 | **Nid oedd strategaethau addysgu yn gyson gryf.** Nid oedd rhywfaint o'r addysgu'n ddigon diddorol na heriol. | Bydd Novus Cambria yn gwella strategaethau addysgu drwy:<br><br>• Adolygu'r Fframwaith Ansawdd i gefnogi gwerthusiad mwy cadarn a chyson o addysgu, ochr yn ochr â chalendr ansawdd ar gyfer arsylwadau addysgu a throeon dysgu a fydd yn nodi meysydd i'w gwella a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer staff, gan gynnwys adborth priodol i wella ansawdd yr addysgu.<br>• Rhoi rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant proffesiynol ar waith ar gyfer yr holl staff addysg. Canolbwyntio ar wella ansawdd a thargedu holi, ymgorffori tasgau adalw yn rhan o waith cynllunio'r athro, gwella dealltwriaeth yr athro o sut i gefnogi dysgwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), dysgu wedi'i strwythuro, defnyddio mannau cychwyn yn ddigon da neu ddarparu gweithgareddau heriol i symud dysgu ymlaen.<br>• Rhoi proses sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod yr hunanwerthuso yn fanwl, yn gynhwysfawr ac yn blaenoriaethu'r ardal sydd bwysicaf o ran sicrhau cynnydd.<br>• Bydd Rheolwyr Addysg yn gwerthuso'r holl ddata sydd ar gael, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddata CURIOUS, gwybodaeth DPP, adborth athrawon a dysgwyr i nodi meysydd sydd angen eu | Llywodraethwr/ Darparwr Addysg | Cwblhawyd<br><br>Mawrth 2025<br><br>Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gwella. Bydd gan y QIG eitem sefydlog ar yr agenda i drafod y data a chynhyrchu camau gweithredu priodol a fydd yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu darparu addysg.<br>• Bydd sicrwydd ansawdd a thargedau ar gyfer gwelliannau yn cael eu cofnodi, eu monitro a'u tracio yn y cyfarfod goruchwylio contractau. | | Cwblhawyd |
| 12 | **Roedd llawer o agweddau ar y strategaeth ddarllen yn dal yn y camau datblygu cynharaf, ac nid oedd digon o ddarpariaeth ar gyfer eginddarllenwyr.** | Bydd CEF Berwyn a Novus Cambria yn gwella mynediad at ddarllen a chefnogaeth ar gyfer eginddarllenwyr drwy:<br>• Adolygu a gweithredu'r Strategaeth Ddarllen a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn llawn. Bydd y Strategaeth yn cael ei chylchredeg drwy'r carchar i hysbysebu'r gwasanaeth i staff a charcharorion, fel eu bod yn gwybod sut i atgyfeirio neu gyfeirio eginddarllenwyr.<br>• Fel rhan o'r adolygiad diwrnod craidd (Gweler pryder 2), bydd digon o amser yn cael ei neilltuo i garcharorion, gan gynnwys carcharorion agored i niwed, gael mynediad i'r llyfrgell unwaith yr wythnos o leiaf.<br>• Adolygu ac ail-lansio rhaglen Ymddiriedolaeth Shannon i gefnogi eginddarllenwyr.<br>• Darparu hyfforddiant staff ychwanegol i hyfforddwyr, gan eu galluogi i ddarparu mwy o gymorth yn yr ystafell ddosbarth a gyda gweithgareddau.<br>• Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg a chefnogi siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn ystod cynefino ac mewn addysg.<br>• Bydd y gwaith monitro ac effeithiolrwydd y camau hyn yn digwydd drwy'r Cyfarfod Perfformiad misol. | Llywodraethwr/ Darparwr Addysg | Awst 2025<br>Hydref 2025<br>Hydref 2025<br>Medi 2025<br>Cwblhawyd<br>Cwblhawyd |
| 13 | **Nid oedd carcharorion yn cael digon o gyfleoedd i ddangos gostyngiad mewn risg, a oedd yn effeithio ar eu gallu i symud ymlaen yn** | Bydd CEF Berwyn a Gwasanaeth Prawf Cymru yn helpu carcharorion i leihau eu risg ac i symud ymlaen yn eu dedfryd drwy wneud y canlynol: | Llywodraethwr/ Darparwr Prawf | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **eu dedfryd.** Roedd cynnig y rhaglen ymddygiad troseddol yn rhy gyfyngedig, ac nid oedd rheolwyr troseddwyr yn y carchar (POM) yn cwblhau digon o waith yn canolbwyntio ar risg gyda charcharorion. | • Adolygu gweithgarwch ac adnoddau Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion y boblogaeth, gan gynnwys y cyfarfodydd cyswllt a ragwelir, oherwydd newidiadau i ddemograffeg y boblogaeth.<br>• Sicrhau bod gan y carchar gyflenwad digonol o Reolwyr Troseddwyr yn y Carchar wedi eu hyfforddi er mwyn lleihau llwythi achosion a chynyddu cysylltiadau wyneb yn wyneb.<br>• Cynyddu nifer y lleoedd ar gyfer Rhaglenni Ymddygiad Troseddol (OBP) drwy gydol 2025, ar y cyd â chyflwyno'r Genhedlaeth Nesaf o Raglenni Achrededig, gan sicrhau eu bod yn cael eu targedu'n effeithiol i gynyddu effaith gwaith lleihau risg. I ategu'r rhaglenni ymddygiad troseddol, bydd rheolwr troseddwyr y carchar yn gwneud gwaith ymddygiad troseddol un-i-un strwythuredig i helpu i herio agwedd, ffordd o feddwl ac ymddygiad carcharorion yn gadarn.<br>• Adolygu'r cynnig Rhaglen Ymddygiad Troseddol i'r rhai sydd ag angen yn seiliedig ar risg sy'n gysylltiedig â throseddu rhywiol a/neu sydd wedi'u lleoli yn y cymunedau Carcharorion Agored i Niwed. Bydd achos busnes yn cael ei gyflwyno i fynd i'r afael â'r angen sydd heb ei ddiwallu ar gyfer y garfan hon.<br>• Bydd y Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar yn cwblhau asesiad a chynllun dedfryd, ar y cyd â'r carcharor, a fydd yn cael ei adolygu pan fydd amgylchiadau'n newid yn sylweddol.<br>• Bydd Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar yn defnyddio eu crebwyll proffesiynol i drefnu sesiynau goruchwylio gyda charcharorion, yn dibynnu ar y risg a'r angen a welir yn ystod y cyfnod o garchar.<br>• Bydd yr Uwch Swyddog Prawf yn monitro ansawdd ac amlder y sesiynau rheoli troseddwyr gan Reolwyr Troseddwyr yn y Carchar, gan nodi blaenoriaethau i helpu i ysgogi cynlluniau dedfrydu sy'n helpu i reoli risgiau a sicrhau cynnydd, gan roi i'r rheolwyr troseddwyr gefnogaeth a hyfforddiant fel bo angen. | | Awst 2025<br>Medi 2025<br>Mawrth 2026<br>Hydref 2025<br>Medi 2025<br>Medi 2025<br>Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Diweddaru’r broses sicrhau ansawdd gwaith allweddol i sicrhau eu bod yn cynnwys sut mae gweithio allweddol yn cefnogi rheoli troseddwyr. (Gweler pryder 4)<br>• Bydd cyfarfod wythnosol yr Uned Rheoli Troseddwyr (OMU) yn monitro ac yn tracio cynnydd ar gyfer yr holl waith sy’n ymwneud â chynllunio dedfrydau ac ymddygiad troseddol, gan sicrhau bod y carchar yn darparu’r gefnogaeth angenrheidiol i ganiatáu i bob carcharor symud ymlaen gyda’u dedfrydau a lleihau eu risg. | | Medi 2025<br><br>Cwblhawyd |